

PWNC:

Cymunedau Mentrus/Enterprising Communities

Cwestiwn	A all sefydliadau gyflwyno mwy nag un cais ar gyfer y gronfa yma?
Ateb	Oes mae posib cyflwyno mwy nag un cais
Cwestiwn	Pwy yw Cwmpas?
Ateb	Cwmpas ydi'r cwmni sy'n rhoi cefnogaeth i Fentrau Cymdeithasol/Mentrau Cydweithredol yng Nghymru - www.cwmpas.coop < http://www.cwmpas.coop >
Cwestiwn	Oes amserlen ar gyfer pa bryd fydd y ffrydiau gwaith arall yn dod yn fyw?
Ateb	Llwyddo'n Lleol ar ETender Wales rwan ac yn cau 11/4/23 Cronfa Her ar ETender Wales rwan ac yn cau 01/15/23 Monitro Gwerthuso a Dysgu allan wythnos nesaf Hunaniaeth – allan yn ystod mis Mai
Cwestiwn	soniwyd yn gynharach am 'gynnal' gwasanaethau/gweithgareddau ond wedyn soniwyd bod pethau sy'n bodoli yn barod yn anghymwys. Beth am weithgareddau/gwasanaethau Cymraeg sydd ar fin diflannu oherwydd toriadau?
Ateb	Mae hwn yn gwestiwn da - mi fydd angen sicrhau fod yna gynaliadwyedd i'r prosiect – mi fydd hi'n anodd iawn i gyllido rhywbeth am 2 flynedd ond i'w weld o'n dod i ben ar ddiwedd y gyllideb. Meddwl byddai angen trafod ymhellach gyda'r Awdurdod Lleol perthnasol i weld yn union beth ydi'r prosiect ac oblygiadau i'r gymuned.
Cwestiwn	A oes posib gwneud cais i bob Awdurdod Lleol yn unigol? Neu un cais yn unig ar gyfer y gronfa Cymunedau Mentrus sydd yn bosib?



Ateb	Mi allwch wneud cais i bob Awdurdod Lleol. Mi fyddai'n fuddiol cael sgwrs gyda'r Awdurdodau Lleol priodol a gallwn ni drafod fel Rhanbarth hefyd.
Cwestiwn	Oes 'na ddyddiad cau i geisiadau?
Ateb	Na dim dyddiad cau. Mae'r arian ar gael tan fydd wedi ei glustnodi.
Cwestiwn	Yw'r £5k - £75k i bob Sir neu bob menter sy'n ymgeisio?
Ateb	Mae o i bob cais.
Cwestiwn	Beth yw'r dyddiad cau i geisiadau neu a all pobl ymgeisio unrhyw bryd rhwng rŵan a 2025?
Ateb	Does dim dyddiad cau. Mae angen i'r holl brosiectau gael eu cwblhau erbyn Rhagfyr 2024.
Cwestiwn	Oes angen cael cynllun busnes wedi'i ysgrifennu cyn rhoi'r cais i mewn?
Ateb	Oes
Cwestiwn	Mae Cyngor Tref Caernarfon yn rhedeg Siop - O Law i Law. A fyddai modd i ni wneud cais e.e. o ran talu rhent y siop?
Ateb	Gan fod hwn yng nghostau rhedeg y siop sy'n bodoli yn barod mi fyddai'n anodd iawn i ni gefnogi hyn. Os oes 'na ddatblygiad i'r gwasanaeth e.e. adeilad newydd; ymestyn y gwasanaeth mi all hyn gael ei ystyried.
Cwestiwn	Cymraeg yw iaith gyntaf ein busnes ni h.y. mae bob dim rydym yn ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cynnwys arwyddion, cyfathrebu a dogfennau gan lenwi bob ffurflen yn Gymraeg (sy'n cynnwys ffurflenni TAW er bod problem gyda TAW wedi mynd yn ddigidol) felly oes wir angen i ni wneud Cynllun Datblygu Cymraeg ? Mewn ffordd yr unig Saesneg rydym yn siarad yw efo'r cwsmer.
Ateb	Mae hyn yn wych – 'dan ni'n gofyn i bawb wneud yr asesiad iaith - mi wneith o roi darlun da i ni o sefyllfa busnesau Cymraeg o fewn y Rhanbarth ac mi fydd o'n gyfle i fusnesau weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i gael cydnabyddiaeth Cynnig Cymraeg.
Cwestiwn	Beth yw'r uchafswm dangosol ar gyfer capex, unai fel canran o gyfanswm prosiect a/neu fel ffigwr penodol?
Ateb	70% o gefnogaeth sydd ar gael drwy'r Gronfa a chefnogaeth ariannol o rhwng £5k - £75k

Cwestiwn	O ran yr elfen refeniw/cyfalaf oes 'na ganllawiau o ran y ganran sydd ar gael i'r ddau.
Ateb	Nac oes, mi fydd ar sail achos wrth achos a dibynnau ar anghenion y prosiect.
Cwestiwn	Beth yw'r amserlen o ran penderfyniadau/cynnig?
Ateb	Yn y cyflwyniad mi wnes i gyfeirio at 6-8 wythnos fel syniad - mi all hyn newid yn ddibynnol ar y broses sgorio ym mhob Sir.
Cwestiwn	A oes angen i'r holl wariant gael ei gwblhau cyn hawlio ad-daliad neu a oes modd cael strwythur taliadau graddol?
Ateb	Rydym yn disgwyl i wariant gael ei gwblhau cyn hawlio ad-daliad. Ond mae posib dod i drefniant taliadau graddol yn ddibynnol a'r lefel costau prosiect.
Cwestiwn	A ydym yn caniatáu mwy nag un cais hyd yn oed os oes mwy nag un cais wedi bod yn llwyddiannus?
Ateb	Ydym
Cwestiwn	Ai 6 mis ydi'r mwyafrif o gyflog y gallwn dalu efo'r grant? Rydym yn griw o fusnesau lleol sy'n chwilio am Gydlynnydd i greu a datblygu digwyddiadau yn y gymuned fydd yn elwa pawb. Angen cyflog ryw 18 mis i roi amser i'r unigolyn ddod o hyd i ffrydiau eraill o gario'r gyflogaeth ymlaen ynghyd â datblygu digwyddiadau
Ateb	Rydym yn rhoi 6 mis i mewn fel awgrym - yn amlwg os ydi'r swydd am neud gwir wahaniaeth i'r prosiect a galluogi i'r prosiect gyflawni amcanion Rhaglen ARFOR a chyfarch yr allbynnau felly mae 'na bosib bod yn hyblyg. Mi fydd angen edrych ar hyn achos wrth achos.
Cwestiwn	Busnes yn wyrdd - e.e. os ydym yn ail doi adeilad fyddwch chi'n rhoi cymorth i gael to sy'n cynhyrchu trydan/solar?
Ateb	Os yw'r gwaith i wneud y busnes yn fwy gwyrdd yn rhan o wneud y busnes yn fwy hyfyw ac yn edrych i greu, datblygu gofodau Cymraeg o fewn y Rhanbarth mae hwn yn rhywbeth y gallwn ei ystyried. Mae'n werth cael trafodaeth gyda'ch Awdurdod Lleol. Linc isod i Fanc Datblygu Cymru sydd hefyd yn rhoi cefnogaeth. Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd - Dev Bank (developmentbank.wales)
Cwestiwn	Oes posib rhoi dolen i'r Heriau Rhanbarthol?
Ateb	Maen nhw yn y canllawiau.
Cwestiwn	Dwi'n gweithio efo cleient sydd eisiau datblygu gwefan fydd yn galluogi ei chwsmeriaid bwcio cyrsiau mae hi'n eu cynnig ar-lein, a thalu amdanynt ar y wefan. A fydd creu gwefan newydd yn gymwys ar gyfer y grant?



Ateb	Os yw'n rhan o gynllun ehangach i ddatblygu'r busnes dwi ddim yn gweld pam ddim. Dydi'r gronfa ddim yn gronfa ar gyfer marchnata yn unig mae angen iddo fod yn rhan o gynllun ehangach ac yn cyd-fynd â'r canllawiau.
Cwestiwn	Ydi darparu gwasanaeth yn gymwys ?
Ateb	Ydi
Cwestiwn	Allbynnau yn sôn am gefnogi mentrau sy'n bodoli ond yn gynharach yn dweud fod prosiectau sy'n bodoli yn barod ddim yn gymwys?
Ateb	Mae 'na bosib i Fentrau sy'n bodoli yn barod roi cais ar gyfer datblygu syniadau newydd e.e. cynnyrch newydd/gwasanaeth newydd
Cwestiwn	Ydy'r elfen o greu swyddi newydd yn hanfodol?
Ateb	Creu swyddi neu warchod swyddi yn hanfodol. Angen edrych ar y canllawiau gan fod yna allbynnau eraill sydd y bwysig hefyd.
Cwestiwn	Fel mudiad mae'r Cynnig Cymraeg gennym eisoes, beth yw ei broses o adolygu ein Cynnig? Oes angen i ni gysylltu â chi a'ch tîm i adolygu ein Cynllun Datblygu'r Iaith Gymreig neu a yw'n adolygiad mewnol rydym ni fel mudiad yn cwblhau?
Ateb	Pan gafodd eich Cynnig Cymraeg ei gymeradwyo, mae'n debyg i chi osod dyddiad adolygu eich Cynnig Cymraeg. Os nad ydych wedi cyrraedd y dyddiad adolygu eto yna nid oes angen i chi wneud unrhyw beth. Os ydych chi wedi cyrraedd eich dyddiad adolygu, cysylltwch gyda'r swyddog y buoch yn gweithio gyda nhw i drefnu sgwrs.
Cwestiwn	A oes unrhyw debygolrwydd o gefnogi prosiectau llai? Fel y mae £7142.86 ydi'r isafswm prosiect, wneith eithrio nifer sylweddol o fusnesau newydd/busnesau micro.
Ateb	Na, roedd rhaid i ni wneud penderfyniad am y lleiafswm o grant ar gael. Mae o wedi'i nodi fel £5,000. Roeddwn yn teimlo fod rhywbeth llai am fod yn anodd cyflawni allbynnau.
Cwestiwn	Beth ydy Gofodau Cymraeg?
Ateb	Mae hyn wedi'i nodi yn y cyflwyniad ac yn y canllawiau. Ond yn fras rydym yn edrych i greu, datblygu ac adnabod



	gofodau Cymraeg lle mae pobl yn gallu gweithio, cymdeithasu yn defnyddio'r Gymraeg.
Cwestiwn	Ydy busnesau Gofal Plant sydd yn bodoli yn barod ac am estyn eu gofod - neu rhai newydd am agor - yn gymwys?
Ateb	Ydi
Cwestiwn	A fydda arwyddion dwyieithog / gwaith cyfieithu / wefannau newydd ar gyfer busnesau bach yn gymwys am gefnogaeth?
Ateb	Mi fyddai angen iddo fod ar gyfer datblygu busnes newydd/cynnyrch newydd/gwasanaeth newydd. Werth edrych ar y canllawiau i weld os fydd y prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cynllun.
Cwestiwn	Ydyn ni yn gallu cysylltu efo Busnesau Cymru, Hwb Mentergarwch ac ati i helpu efo'r cais?
Ateb	Gallwch
Cwestiwn	Pryd fydd y Gronfa Ffyniant Bro ar gael?
Ateb	Mae bob Awdurdod Lleol yn rhedeg y Gronfa yma ychydig yn wahanol. Dyma linc i dudalennau Sirol i chi gadw llygaid arnynt. Cronfa Ffyniant Cyffredin y Deyrnas Unedig (llyw.cymru) <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/cronfa-ffyniant-gyffredin-y-deyrnas-unedig/> Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol Canolbarth Cymru - Cyngor Sir Ceredigion Cronfa Ffyniant Cyffredin: Gwynedd (llyw.cymru) <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Arian,-cyllid-a-grantiau/Grantiau-a-chymorth-ariannol/Cronfa-Ffyniant-Gyffredin-Gwynedd.aspx> UK Shared Prosperity Fund (SPF): Isle of Anglesey(gov.wales) <https://www.anglesey.gov.wales/en/Business/Economic-development/UK-Shared-Prosperity-Fund.aspx>
Cwestiwn	Oes unrhyw sectorau sydd ddim yn gymwys am gefnogaeth e.e. amaeth, bwyd a diod
Ateb	Na
Cwestiwn	Pryd mae'r dyddiad cau?
Ateb	Does dim dyddiad cau. Derbyn ceisiadau nes bydd yr arian wedi ei glustnodi.
Cwestiwn	Oes angen i'r busnes gynnal y prosiect yn y Sir mae wedi ei sefydlu yntau unrhyw un o'r 4 sir?



Ateb	Mi all cais fod i unrhyw Sir os yn ddatblygiad.
Cwestiwn	Ar ôl cymeradwyaeth oes dyddiad cau ar gyfer gwariant?
Ateb	Mae angen i bob prosiect a gwariant gael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2024. Yn amlwg hoffwn i ymgeiswyr ystyried wneud hyn mewn amserlen resymol i'r prosiect.
Cwestiwn	Hawlio'r grant - ydi hyn yn broses o'r busnes i brynu / gwario cael anfoneb a'i hawlio'n ôl wedyn gan y Cyngor? Ydi'n bosib hawlio fesul ychydig fel mae'r gwaith yn mynd ymlaen?
Ateb	Cywir - mae angen rhoi tystiolaeth o anfonebau/tystiolaeth o wariant. Mi allwn edrych ar daliadau mewn camau yn ddibynnol ar natur a gwerth y prosiect.
Cwestiwn	Os yw'r cais yn aflwyddiannus - oes posib apelio neu wneud ail gais?
Ateb	Oes - trafodwch gyda'ch tîm lleol?
Cwestiwn	Ni sydd yn cysylltu efo Comisiynydd y Gymraeg neu ydi nhw yn dod atom ni ar ôl rhoi y cais i mewn?
Ateb	Mae angen i chi gwblhau holiadur ar-lein i gael eich sgôr. Mi fyddwch yn rhoi hwn i mewn gyda'ch cais am gefnogaeth. Fydd Tîm Comisiynydd y Gymraeg yn gweithio gyda chi i gael cydnabyddiaeth Cynnig Cymraeg.
Cwestiwn	Oes posib i'r arian cyfatebol fod yn anariannol?
Ateb	Na
Cwestiwn	Ydi hi'n iawn i feddwl bod angen Llif Arian am 3 mlynedd?
Ateb	Oes.
Cwestiwn	Oes posib cael y ffurflenni cais mewn Word?
Ateb	Maen nhw ar wefan bob Cyngor Sir.
Cwestiwn	I ba raddau ydych yn cefnogi prosiectau rhanbarthol?
Ateb	Mae angen gwneud cais i bob Sir berthnasol.
Cwestiwn	Oes posib cael mwy o fanylion am reolau caffael os gwelwch yn dda?
Ateb	Mi fydd Awdurdodau Lleol yn cyfeirio at eu rheolau caffael nhw eu hunain. Gwybodaeth ar gael yn lleol.

